

CITB Cynllun Hyfforddiant Diogelwch Rheoli Safle (SMSTS)



Yn gwyno

Bydd y cwrs hwn yn arddangos sut i fodloni'r galw cynyddol am dystiolaeth o reolaeth iechyd a diogelwch cadarn ar safle adeiladu.

Mae'r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Mae PLA yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan-amser, rhad ac am ddim sydd â ffyrdd hyblyg a chyfleus o ddysgu sy'n addas i'w ffordd o fyw presennol.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...unrhyw un sydd dros 19 mlwydd oed yn byw yng Nghymru, mewn cyflogaeth ac yn ennill llai na £32,371 y flwyddyn

...unrhyw un sy'n ystyried cymryd y cam nesaf tuag at yrfa yn y diwydiant adeiladu drwy ymgymryd â rhaglen astudio hyblyg wedi'i chynllunio ar eich cyfer chi

...unrhyw un sydd yn frwd dros ddod yn rheolwr safle



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Cynnwys y cwrs

Bydd y cwrs yn mynd i'r afael â:

chyfathrebu gyda chleientiaid ac adrodd ar gynnydd
goruchwylio gweithwyr adeiladu dan gontract
cwrdd ag isgontractwyr
cynnal arolygon diogelwch a sicrhau diogelwch safle ac adeiladu
gwirio a pharatoi adroddiadau, dyluniadau a lluniadau safle
cynnal gwiriadau rheoli ansawdd
ysgogi'r gweithlu drwy gydol y prosiect
datrys problemau o ddydd i ddydd
defnyddio cymwysiaid cyfrifiadurol rheoli adeiladu arbenigol

Gofynion Mynediad

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Os nad ydych yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y fenter a ariennir gan y PLA, gallwch ymgeisio am y cwrs hwn o hyd drwy glicio ar y ddolen isod lle gallai ystod o gymorth ariannol fod ar gael i chi:

<https://www.colegwent.ac.uk/cy/course/CE2764/cskills-awards-site-management-safety-training-scheme-smsts-level-3?uioid=510040>

Apply online at www.colegwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

